# Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2025

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Pum Ciplowg Pwysig — Hydref 2025

### Beth yw Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru?

- Mae Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnig trosolwg o berfformiad economaidd Cymru.
- Mae'r adroddiad yn ymchwilio i dueddiadau allweddol, gan gynnwys o ran allbwn economaidd, cynhyrchiant, safonau byw, chwyddiant, cyflogaeth, cyflogau, a masnach. Mae hefyd yn darparu'r rhagolygon cyllidol.
- Mae'r adroddiad hefyd yn dadansoddi dau fater sy'n dod yn gynyddol bwysig: newid hinsawdd a deallusrwydd artiffisial.

### 1. Cymru yn economi'r DU yn ehangach

- Mae cysylltiad agos rhwng economi Cymru ac economi'r DU.
- Mae'r mwyafrif o'r nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir yng Nghymru yn cael eu gwerthu yn y DU.
- Mae'r tueddiadau economaidd yng Nghymru, fel allbwn, safonau byw, chwyddiant a chyflogaeth, fel arfer yn dilyn y newidiadau ar lefel y DU.

### 2. Twf allbwn economaidd a safonau byw yn y DU

- Mae'r twf economaidd a'r twf mewn safonau byw wedi arafu ledled y DU.
- Mae Cymru a'r DU wedi profi twf economaidd arafach ers y pandemig.
- Twf economaidd sy'n parhau i yrru safonau byw (sy'n cael eu mesur yn ôl incwm pobl a phŵer prynu).
- Mae safonau byw ledled y DU wedi aros yn eu hunfan yn ddiweddar, gyda llawer o aelwydydd yn cael eu heffeithio gan brisiau uwch a thwf araf mewn cyflogau.

### 3. Safonau byw yng Nghymru

- Mae safonau byw yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU ond yn fwy tebyg i'r rhanbarthau y tu allan i Lundain a De-ddwyrain Lloegr.
- Mae safonau byw sy'n uwch yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr yn effeithio ar gyfartaledd y DU.
- Gall y bwlch mewn safonau byw rhwng Cymru a'r DU fod yn llai nag y mae'r data ar incwm yn ei awgrymu

### 4. Cyflogaeth

- Yn ôl data swyddogol, mae'r gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yn agos at y lefel uchaf a welwyd erioed.
- Fodd bynnag, mae data diweddar ar y farchnad lafur yn dangos rhywfaint o wendid, yn enwedig yn niwydiannau'r sector preifat.
- Er bod lefelau diweithdra yn parhau i fod yn gymharol isel, mae cyfraddau anweithgarwch economaidd yn parhau i fod yn gymharol uchel.

### 5. Goblygiadau cyllidol

- Mae gwariant, trethi a dyled Llywodraeth y DU ar eu huchaf ers y 1940au, gan effeithio ar gyllid Cymru.
- Mae cyllid cyhoeddus y DU yn wynebu pwysau yn sgil costau cynyddol, twf economaidd araf a phoblogaeth sy'n heneiddio.
- Twf cymedrol a ddisgwylir yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, tra bo'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn parhau i gynyddu.
- Mae hyn yn arwain at benderfyniadau anodd ynghylch blaenoriaethau gwariant yn y dyfodol.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53215
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg